

Adroddiad Arolygu Dilynol ar gyfer *Gofal a Chymorth*

Bobl ag Anableddau Dysgu
yn Sir Benfro

Cynnwys

Cyflwyniad	3
Cyd-destun	3
Methodoleg	3
Cydnabyddiaethau	4
Crynodeb o'r canfyddiadau	5
Argymhellion	7
Canfyddiadau	8

Cyflwyniad

Ym mis Rhagfyr 2015, roedd awdurdod lleol Sir Benfro yn rhan o arolygiad cenedlaethol gofal a chymorth i oedolion ag anableddau dysgu AGGCC ac AGIC. Diben yr arolygiad oedd asesu llwyddiant gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol o ran cyflawni'r canlyniadau sydd o bwys i'r bobl. Canfu'r arolygiad hwn rai diffygion sylweddol, ac o ganlyniad, roedd yn ofynnol i'r awdurdod lleol ddatblygu cynllun gwelliannau. Mae AGGCC wedi bod yn monitro'r cynllun gweithredu yn ystod y flwyddyn.

Ym mis Ionawr 2016, hysbyswyd awdurdod lleol Sir Benfro gan AGGCC y byddent yn cynnal arolygiad dilynol yn ystod 2016/17. Byddai'r arolygiad hwn yn ystyried a oedd cynnydd digonol wedi ei wneud ai peidio o ran gwella ansawdd a chysondeb y gwasanaethau i oedolion ag anableddau dysgu.

Cyd-destun

Mae gan Gyngor Sir Penfro boblogaeth o oddeutu 124,000 (amcangyfrif canol blwyddyn 2015). Gan ddefnyddio system amcanestyniad anghenion gofal cymdeithasol Daffodil a leolir ar y We a ddatblygwyd ar gyfer Llywodraeth Cymru, mae'r awdurdod yn amcangyfrif fod 2297 o oedolion ag anableddau dysgu yn byw yn ardal y Cyngor. Ar 3 Mawrth 2016, roedd 511 o oedolion ag anableddau dysgu yn hysbys i'r Awdurdod ac roedd 41 ohonynt yn chwe deg pump oed neu'n hŷn. Ar 31 Mawrth 2016, roedd 417 o oedolion ag anableddau dysgu yn cael eu cefnogi gan wasanaeth a oedd yn cael ei ddarparu a/neu ei gomisiynu gan Gyngor Sir Penfro. O'r rhain, roedd 324 (78%) yn cael eu cefnogi i fyw yn y gymuned, a 93 (22%) yn cael eu cefnogi mewn gofal preswyl/nyrsio.

Roedd gan awdurdod lleol Sir Benfro £13,497,000 o wariant am 2015/16 ar gyfer Anableddau Dysgu. Mae hyn yn £32,367 y pen ar gyfer y 417 o unigolion a gefnogir gan yr awdurdod lleol ar hyn o bryd.

Adroddiad

Mae hwn yn adroddiad o'r arolygiad a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2017. Darllenodd yr arolygwyr ffeiliau achos a chynnal cyfweiliad ag aelodau staff, rheolwyr a gweithwyr proffesiynol o asiantaethau partner. Cyfarfuwyd â phobl ag anableddau dysgu, rhieni a gofalwyr.

Methodoleg

Roedd y tîm arolygu ar y safle yn Sir Benfro am bum niwrnod yn ystod wythnos gyntaf mis Mawrth 2017. Roedd yr arolygiad yn canolbwyntio ar y meysydd i'w gwella a nodwyd yn ystod yr arolygiad ym mis Rhagfyr 2015. Defnyddiwyd y prif gwestiynau a oedd yn ffurfio'r elfennau gwerthuso yn arolygiad mis Rhagfyr fel meini prawf meincnodi ar gyfer yr arolygiad dilynol. Ystyriwyd hefyd y cynnydd y mae'r awdurdod lleol yn ei wneud o ran

gweithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.
Consideration

Roedd y gweithgareddau yn ystod y gwaith maes yn cynnwys

- Darllen Ffeiliau Achos: rhoddodd yr arolygwyr ystyriaeth i 15 o achosion a ddewiswyd ymlaen llaw.
- Cyfweiliadau: cynhaliodd yr arolygwyr nifer o gyfweiliadau grŵp ac unigol gyda'r staff, aelodau etholedig, asiantaethau partner, y Trydydd Sector, pobl ag anabledd dysgu, rhieni a gofalwyr.
- Arsylwadau: Aeth arolygwyr AGGCC i gyflwyniad gan yr awdurdod lleol ar y cynnydd a wnaed ganddynt ers yr arolygiad gwreiddiol. Darparodd y tîm diogelu oedolion gyflwyniad o drefniadau diogelu yr awdurdod lleol hefyd.

Cydnabyddiaethau

Hoffai AGGCC ddiolch i'r canlynol: Pobl ag anabledd dysgu; rhieni a gofalwyr; staff a rheolwyr Cyngor Sir Penfro; asiantaethau partner a'r Trydydd Sector am eu hamser, eu cydweithrediad a'u cyfraniad i'r arolygiad hwn.

Crynodeb o'r canfyddiadau

- 1.1. Mae'r Awdurdod wedi gwneud cynnydd yn y ddarpariaeth o'r gofal a'r cymorth y mae'n ei ddarparu ar gyfer pobl ag anableddau dysgu. Rhoddwyd blaenoriaeth sylweddol i ymgynghori â'r bobl ag anableddau dysgu, eu gofalwyr a'r staff, ac mae hyn wedi bod yn ganolog i'r gwelliannau a wnaed. Mae'r pwyslais wedi bod ar sicrhau y clywir llais y rhanddeiliaid ac y rhoddir sylw rhagweithiol i'w llais yn y cynlluniau a ddatblygwyd gan yr Awdurdod.
- 1.2. Canfuom fod newidiadau cadarnhaol wedi eu gwneud ynglŷn ag arweinyddiaeth a diwylliant yr awdurdod lleol, ac yn ddieithriad, dywedodd y staff, pobl ag anableddau dysgu ac aelodau teulu fod yr arweinwyr ar gael a'u bod wedi ymgysylltu â hwy i gael eu barn. Mae aelod etholedig wedi ei benodi'n Eiriolwr dros bobl ag anableddau dysgu, ac mae'n cefnogi'r uwch swyddogion i sbarduno'r newidiadau sydd eu hangen.
- 1.3. Mae Strategaeth Anabledd Dysgu wedi ei datblygu mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a rhanddeiliaid allweddol. Mae'n bwysig yn awr i'r awdurdod lleol symud ymlaen yn gyflym er mwyn sicrhau bod y Strategaeth hon yn cael ei gwireddu yn fodel cyflenwi gwasanaeth. Wrth wneud hynny, mae'n rhaid iddynt wneud yn siŵr eu bod yn adeiladu ar y dull cydweithredol a ddefnyddiwyd hyd yma ac ymgysylltu â'r rhanddeiliaid drwy'r amser. Elfen allweddol i lwyddiant hyn fydd strategaeth gyfathrebu glir sy'n egluro sut y bydd yr awdurdod lleol yn cyfathrebu ac ymgysylltu â'r rhanddeiliaid, yn y broses o ddatblygu gwasanaethau i bobl ag anableddau dysgu.
- 1.4. Mae Strategaeth ddrafft hawdd ei deall wedi ei ddatblygu ar gyfer pobl ag anabledd dysgu, a dywedwyd wrth yr arolygwyr fod y bobl yn cymryd rhan yn natblygiad y Strategaeth hon drwy gefnogaeth gwasanaethau eirioli. Er bod hyn yn rhywbeth cadarnhaol, mynegwyd pryder yn ystod ymgynghoriadau â'r rhanddeiliaid nad yw'r Strategaeth hawdd ei deall yn cael ei chyflwyno'n llawn yn iaith Cyfathrebu Cyflawn a ddefnyddir yn gyson mewn gwasanaethau yn Sir Benfro.
- 1.5. Mae'r tîm comisiynu a chontractio wedi adolygu contractau er mwyn gwneud yn siŵr y rhoddir sylw i'r sefyllfaoedd a ganfuwyd gan yr arolygwyr ym mis Rhagfyr 2015 lle yr oedd unigolyn a oedd â thenantiaeth yn derbyn gofal a chymorth oddi wrth ei landlord hefyd. Adroddwyd am waith cydweithredol gwell gyda'r Gwasanaethau Tai, ac mae trafodaethau'n cael eu cynnal ynglŷn â mentrau newydd ond nid oes strategaeth lletya wedi ei datblygu ar gyfer pobl ag anableddau dysgu hyd yma. Mae'n rhaid i'r Awdurdod sicrhau bod y weledigaeth a ddisgrifir yn y Strategaeth ynglŷn â rhoi llety i bobl ag anableddau dysgu yn cael ei gosod mewn cynllun clir a bod hyn yn cyfateb i asesiad anghenion poblogaeth yr Awdurdod.

- 1.6. Mae'r broses o weithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn dod ymlaen yn dda. Roedd y trefniadau ar gyfer Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth wedi eu datblygu, a gwelsom fod y rhain yn cytuno'n gyffredinol ag ethos y Ddeddf. Fodd bynnag, mynegodd rhanddeiliaid rywfaint o ansicrwydd ynglŷn â sut y bydd pobl ag anableddau dysgu a'u gofalmwr yn gallu defnyddio'r gwasanaethau. Mae'n rhaid i'r awdurdod ystyried yr agwedd hon er mwyn sicrhau bod pobl yn deall y llwybr i mewn i'r gwasanaeth a bod hon yn broses ddi-dor. Yn hollbwysig i hyn fydd sicrhau bod yr adolygiad o'r strwythur a gwblhawyd yn gosod y rolau a'r cyfrifoldebau ar gyfer aelodau'r timau a'r meini prawf angen ar gyfer sut y cefnogir y bobl oddi mewn i'r strwythur newydd hwn. Wrth wneud hynny, mae'n rhaid i'r Awdurdod sicrhau eu bod yn gwrandao ar lais y bobl sydd wedi mynegi'n glir eu bod eisiau gweithiwr proffesiynol penodol y gallant gysylltu ag ef/hi.
- 1.7. Cefnogir yr ymarferwyr gan systemau rheoli gofal clir erbyn hyn, a gwelodd yr arolygwyr drefniadau llawer gwell ar gyfer asesiadau, a chynlluniau ac adolygiadau gofal a chymorth. Fodd bynnag mae angen gwneud mwy o waith i ddangos mewn cofnodion achos sut y mae pobl ag anableddau dysgu a'u teuluoedd yn cymryd rhan ragweithiol yn y trefniadau gofal a chymorth a bod y cynlluniau yn canolbwyntio ar yr unigolyn.
- 1.8. Mae'r trefniadau ar gyfer diogelu oedolion wedi gwella'n fawr, gyda'r uned ddiogelu benodedig ar gyfer oedolion a phlant yn dangos bod ganddynt yr adnoddau iawn i ateb y galw. Mae polisïau a gweithdrefnau effeithiol wedi eu sefydlu er mwyn sicrhau bod materion diogelu'n derbyn sylw priodol a'u bod yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Argymhellion

- 2.1. Mae angen i'r awdurdod lleol, mewn cydweithrediad â'r rhanddeiliaid allweddol, ddatblygu cynllun sy'n rhoi manylion am y ffordd y bydd y Strategaeth Anableddau Dysgu yn cael ei gweithredu. Wrth wneud hynny, mae'n rhaid iddo sicrhau bod y rhanddeiliaid i gyd yn cymryd rhan ac yn dangos yr ymrwymiad a wnaed gan yr awdurdod lleol i gyd-gynhyrchu gwasanaethau.
- 2.2. Mae angen i'r Strategaeth hawdd ei deall ystyried yr amrywiaeth o ddulliau cyfathrebu a ddefnyddir ar gyfer pobl ag anabledd dysgu yn Sir Benfro.
- 2.3. Dylid datblygu strategaeth gyfathrebu er mwyn sicrhau bod y rhanddeiliaid i gyd yn cael cyfle i gymryd rhan yn natblygiad y gwasanaethau, ac mae'n rhaid i'r strategaeth hon ystyried sut y mae'r awdurdod lleol yn ymgysylltu â grwpiau anodd eu cyrraedd.
- 2.4. Dylid datblygu strategaeth gomisiynu ar gyfer gofal a chymorth i bobl ag anableddau dysgu mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda. Dylai dadansoddiad eang o angen fod yn sail iddo a dylai ganolbwyntio ar ddatrysiadau cydweithredol ac arloesol.
- 2.5. Mae angen datblygu strategaeth letya ar gyfer pobl ag anableddau dysgu, sydd wedi ei seilio ar asesiad o anghenion y boblogaeth ar gyfer yr Awdurdod.
- 2.6. Dylid datblygu polisi rheoli cofnodion er mwyn sicrhau cysondeb yn y trefniadau gofal a chymorth. Mae angen i'r trefniadau sicrhau bod y cofnodion rheoli gofal yn dangos cyfraniad pobl ym mhob agwedd ar eu gofal, gan gynnwys adolygiadau, a bod y cynlluniau gofal a chymorth yn canolbwyntio ar yr unigolyn.
- 2.7. Mae angen ffurfioli'r manylion am ailstrwythuro'r tîm, er mwyn sicrhau bod pobl ag anabledd dysgu, eu teuluoedd, gofalwyr, y staff, asiantaethau a'r trydydd sector yn deall y model o ddarparu gwasanaeth. Mae'n rhaid i hwn gynnwys trefniadau clir ar gyfer dyrannu a chyflenwi gwaith ar bob lefel, gan gynnwys y Tîm Cymunedol Anableddau Dysgu, y tîm adolygu a'r tîm pontio.

Canfyddiadau

Cwestiwn Allweddol 1

Pa mor dda y mae'r Awdurdod yn deall yr angen am ofal a chymorth i bobl ag anableddau dysgu, gan gynnwys cymorth i ofalwyr a datblygiad gwasanaethau ataliol, yn ei ardal?

Canolbwyntiodd yr arolygiad ar y meysydd canlynol ar gyfer Cwestiwn Allweddol 1

- Datblygu cynllun strategol amlasiantaethol ar gyfer pobl ag anableddau dysgu ac effeithiolrwydd y cydweithredu gyda rhanddeiliaid allweddol.
- Comisiynu a chontractio gwasanaethau ar gyfer pobl ag anableddau dysgu.

- 3.1. Mae arweinyddiaeth y gwasanaethau cymdeithasol yn awyddus i hybu diwylliant o arloesedd a gwelliannau, a cheir enghreifftiau da o'r hyn sydd wedi ei wneud yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Bu pwyslais penodol ar welliannau parhaus a sail gwerthoedd cryf y dylid datblygu gwasanaethau ohoni. Mae'n amlwg bod yr awdurdod lleol wedi bod yn gwneud ymdrech sylweddol i wella gwasanaethau i bobl ag anableddau dysgu, ac i wneud hyn drwy ymgysylltu â'r bobl a'u gofalwyr yn uniongyrchol. Yn arwyddocaol, ceir newid yn y diwydiant i fod yn fwy ymatebol i'r hyn sydd o bwys i'r bobl.
- 3.2. Mae ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol yn newid hollbwysig, a cheir tystiolaeth i gefnogi'r ymrwymiad i weithio o fewn fframwaith cyd-gynhyrchu, yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'r awdurdod lleol wedi defnyddio rhai dulliau arloesol i wir gynnwys pobl yn y gwaith o ddylunio a darparu gwasanaethau ar gyfer pobl ag anableddau dysgu. Mae gwaith sylweddol wedi ei wneud i ddangos yr hyn sy'n bwysig i'r bobl ac ystyried sut y gallai hyn lunio gwasanaethau yn y dyfodol. Mae Bwrdd Partneriaeth Anableddau Dysgu wedi ei sefydlu sydd â chynrychiolaeth defnyddwyr, ac mae'n cael ei gadeirio a'i is-gadeirio gan bobl ag anableddau dysgu. Mae gwaith y Bwrdd wedi bod yn allweddol yn natblygiad Strategaeth Anableddau Dysgu.
- 3.3. Roedd datblygiad y Strategaeth wedi ei seilio ar amrywiaeth eang o ddigwyddiadau ymgysylltu drwy Sir Benfro i gyd a chanolbwyntio ar wneud y dull o gyfathrebu'n briodol i bobl drwy ddatblygu sgiliau Cyfathrebu Cyflawn. Er bod yr Awdurdod wedi dangos eu bod wedi ymrwymo i sicrhau ymgynghoriad eang â'r rhanddeiliaid allweddol, dywedodd rhai gofalwyr ac aelodau staff wrthym nad oeddent yn cael cyfle i gael ymgynghoriad nac i gymryd rhan yn natblygiad y Strategaeth.

Nid oeddem yn gallu llwyr gadarnhau i ba raddau y cymerwyd camau i anelu at bobl anodd eu cyrraedd, yn benodol, y bobl nad ydynt yn defnyddio gwasanaethau cyfredol a phobl sy'n byw yng nghefn gwlad Sir Benfro. Bydd angen i'r Awdurdod gryfhau'r trefniadau er mwyn sicrhau eu bod yn ffyddiog y rhoddwyd pob cyfle i'r holl randdeiliaid gael ymgynghoriad a'u bod yn cyfrannu at y camau nesaf o'r Strategaeth.

- 3.4. Y farn gyffredinol oedd bod llawer i'w ddathlu ynglŷn â'r gwaith a wnaed hyd yna. Ar y cyfan, mae'r cyfeiriad teithio wedi bod yn gadarnhaol iawn, ond mae cryn dipyn o ddisgwyliad yn parhau i fod ynglŷn â'r hyn a fydd yn cael ei gyflenwi. Cydnabyddir bod angen cael cydbwysedd da rhwng datblygu gwasanaethau newydd ac ailfodelu a buddsoddi mewn modelau gwasanaeth mwy traddodiadol. Canfuom fod ymrwymiad a pharodrwydd gan y staff ar bob lefel yn y gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd i sicrhau bod pobl yn cael mynediad at wasanaethau o ansawdd da. Roedd aelodau'r staff yn glir ynglŷn â'r ffaith y dylai'r gwasanaethau hybu annibyniaeth ar gyfer y bobl a bod pwyslais ar rymuso a'r angen i feithrin gwytnwch a dyfeisgarwch cymunedol. Fodd bynnag, mae'n amlwg bod y Strategaeth Anabledau Dysgu yn parhau i fod yn ei dyddiau cynnar a bod bellach angen cael model cyflenwi gwasanaeth i gyd-fynd â hi. Canfuom fod rhywfaint o ansicrwydd sylweddol ynglŷn â'r modelau gwasanaeth newydd, ac er bod ymrwymiad i gyd-gynhyrchu, mae'n amlwg nad yw'r holl randdeiliaid y ymwybodol o'r bwriad hwn a sut y byddent yn cymryd rhan. Un her hollbwysig i'r Awdurdod fydd sut y byddent yn sicrhau y bydd y bobl ag anabledau dysgu, eu gofalmwyr a'r staff yn ymgysylltu â'r broses hon wrth iddynt symud i newid modelau cyflenwi gwasanaeth y mae'r bobl wedi arfer â hwy, a datblygu gwasanaethau newydd.
- 3.5. Canfuom fod yr Awdurdod yn cymryd camau i fod yn fwy cyson a threfnus yn y ffordd mae'n comisiynu ei wasanaethau. Un newid allweddol a wnaed oedd gwella statws y trefniadau byw yn annibynnol, er mwyn sicrhau eu bod yn bodloni'r gofynion deddfwriaethol drwy wahanu darparwyr tai a darparwyr gofal oddi wrth ei gilydd. Mae gan yr Awdurdod raglen lletya ac effeithlonrwydd sy'n adolygu lleoliadau er mwyn sicrhau bod y bobl yn derbyn lefel o ofal sy'n adlewyrchu eu hanghenion, a bod y pecynnau gofal yn cynnig gwerth am arian. Mae'r adolygiadau wedi canfod rhai gostyngiadau sylweddol yn y lefel o wasanaethau a ddarperir i bobl, ond mae'n achos pryder nad yw'r newidiadau hyn wrth gyflenwi gwasanaethau wedi eu gwireddu a bod yr Awdurdod yn parhau i dalu am wasanaethau nad oes eu hangen mwyach. Mae angen i'r Awdurdod roi blaenoriaeth i'r camau gweithredu a nodir yn yr adolygiadau hyn, er mwyn gwneud yn siŵr bod arian cyhoeddus yn cael ei reoli'n effeithiol.
- 3.6. Mae'r system panel amlasiantaethol yn parhau i gael ei defnyddio a chanfuom fod trefniadau gwell rhwng yr Awdurdod ac iechyd o ran gweithredu'r polisi gofal iechyd parhaus, gydag aelod o staff penodedig yn goruchwyllo'r trefniadau hyn. Mae hwn yn gam calonogol ac roedd yn amlwg bod y trefniadau'n gweithio'n dda, gyda sylwadau cadarnhaol am

yr effaith yr oedd hyn yn ei chael ar sicrhau bod y bobl yn derbyn gofal a chymorth priodol. Mae gwahanol agweddau ar gomisiynu wedi eu dwyn ynghyd i ganolfan, gan sicrhau mwy o gysondeb a gwell cyfathrebu ar draws swyddogaethau comisiynu a rheoli contractau. Mae gwell mesurau sicrhau ansawdd wedi eu gweithredu o ran comisiynu ac adroddir bod hyn yn dechrau codi safonau. Er y nodir gwelliannau, y camau nesaf y mae'n rhaid eu cymryd yw gweithredu'r Strategaeth gyffredinol sy'n ysgogi gwelliannau ar draws pob agwedd ar ofal a chymorth i bobl ag anableddau dysgu.

- 3.7. Mae cysylltiadau cryfach yn cael eu datblygu rhwng y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Gwasanaethau Tai; mae'r rheolwr tai yn aelod o Fwrdd Partneriaeth Anableddau Dysgu. Er bod hwn yn gam cadarnhaol, nid oes unrhyw strategaeth letya glir fyth ar gael i bobl ag anableddau dysgu. Mae hwn yn faes blaenoriaeth i'r Awdurdod, ynghyd â gweithredu'r Strategaeth, gan ei bod yn hollbwysig fod cynlluniau clir ar gael sy'n amlinellu'r hyn y gall pobl ag anableddau dysgu ei ddisgwyl o ran eu hanghenion lletya.
- 3.8. Wrth symud y Strategaeth Anableddau Dysgu ymlaen, bydd angen i'r cyngor sicrhau bod gwasanaethau ar gyfer y dyfodol yn cael eu datblygu drwy eu seilio ar yr asesiad o anghenion y boblogaeth, sydd wedi nodi demograffeg newidiol anghenion pobl ag anableddau dysgu yn Sir Benfro. Bydd hyn yn amlwg yn her, o ystyried y newidiadau hyn a'r cyfyngiadau ariannol y mae'r awdurdod yn eu hwynebu. Un o'r blaenoriaethau allweddol yn sicr yw sicrhau goruchwyliaeth effeithiol o becynnau gofal sy'n dangos bod y bobl yn derbyn yr ansawdd gofal gorau a bod hyn yn darparu'r gwerth gorau i'r Awdurdod.

Cwestiwn Allweddol 2

Pa mor effeithiol yw'r Awdurdod o ran darparu gwybodaeth, cyngor, cymorth, cynllunio asesu a gofal sy'n cyflawni canlyniadau cadarnhaol ac sy'n parchu pobl ag anableddau dysgu fel dinasyddion cyflawn, cyfartal mewn statws a gwerth â dinasyddion eraill o'r un oedran?

Roedd yr arolygiad yn canolbwyntio ar y meysydd canlynol dan Gwestiwn Allweddol 2:

- Cynnydd o ran gweithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 - yn benodol, y trefniadau ar gyfer Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth.
- Effeithiolrwydd y ddarpariaeth o ofal a chymorth i bobl.
- Mae'r trefniadau ar gyfer amddiffyn oedolion yn sicrhau y diogelir pobl yn briodol.

4.1. Wrth fodloni gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 o ran cael mynediad at wybodaeth, cyngor a chymorth, mae'r Awdurdod wedi datblygu canolfan gyswllt gyffredinol, lle y cyd-leolir tîm dyletswydd y gwasanaethau cymdeithasol. Yn gysylltiedig â'r trefniadau hyn, ceir datblygiad coed ymholiadau, er mwyn dod o hyd i'r hyn sydd ei angen ar y bobl a'u cyfeirio at y datrysiadau cywir heb fod angen cynnal asesiadau ffurfiol. Mae partneriaeth â Phrifysgol Abertawe wedi ei datblygu, er mwyn cynorthwyo â datblygu cymunedol, ac mae nifer o fforymau'n cael eu sefydlu i ysgogi model cysylltwyr cymunedol. Mae'r Strategaeth Anableddau Dysgu yn nodi pwysigrwydd adnoddau cymunedol ac yn dangos sut y byddant yn cael eu datblygu er mwyn lleihau arwahanrwydd cymdeithasol i bobl ag anableddau dysgu. Bydd argaeledd adnoddau cymdeithasol, mewn ardaloedd gwledig yn benodol, yn hollbwysig i lwyddiant hyn.

4.2. Mae'r gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth yn ei ddyddiau cynnar, ac mae'n rhy gynnar i asesu ei effeithiolrwydd yn ffurfiol. Fodd bynnag, roedd gwybodaeth anecdotaidd yn awgrymu bod ansicrwydd ynglŷn â'i weithrediad yn y gwasanaethau anableddau dysgu. Gwnaed sylwadau gan randdeiliaid hefyd y gall gohebiaeth oddi wrth yr awdurdod lleol fod yn anodd ei deall ac adroddwyd nad oedd y wefan yn hawdd ei defnyddio. Mae'n amlwg y bydd angen rhoi sylw i'r rhain, ac yn benodol, y neges allweddol o'r ymgynghoriad ar y Strategaeth Anableddau Dysgu oedd bod y bobl eisiau cysylltu â gweithiwr proffesiynol cyfarwydd, penodol.

4.3. Mae adolygiad strwythur timau wedi ei gynnal, gyda gwahanol feini prawf yn cael eu gosod ar sut y dynodir gweithiwr i'r bobl, ac mae'r adolygiad hwn bellach yn cynnwys tîm adolygu dynodedig ar gyfer adolygu

pecynnau'r bobl drwy'r gwasanaethau i oedolion i gyd. Gwelsom rywfaint o ansicrwydd ynglyn â dyrannu achosion, gyda nifer sylweddol o bobl ag anableddau dysgu heb weithiwr dynodedig. Mae sicrhau bod pobl yn deall eu swyddogaethau a chyfrifoldebau a'r meini prawf angen ar gyfer sut y bydd y bobl yn cael eu cefnogi yn y strwythur newydd hwn yn elfen allweddol i lwyddiant y newidiadau hyn. Mae hwn yn fater pwysig i'r Awdurdod, ac mae'n rhaid iddynt sicrhau bod camau'n cael eu cymryd i roi sylw i'r ansicrwydd hwn ac i ddangos bod dymuniadau'r bobl yn cael eu hystyried. Mae'r bobl ag anableddau dysgu a'u gofalmwyr yn nodi bod unigolyn penodol yn hollbwysig i barhad cymorth proffesiynol; mae'r systemau newydd ar hyn o bryd yn adlewyrchu gwasanaeth sy'n llai na chadarn i'r bobl y dylid eu cefnogi'n effeithiol.

- 4.4. Ers yr arolygiad blaenorol, mae darparwr newydd cymorth i ofalmwyr wedi ei benodi; Croesffyrdd Canolbarth a Gorllewin Cymru. Ceir tystiolaeth bod camau cadarnhaol wedi eu cymryd ers iddynt ddechrau gweithredu ym mis Gorffennaf 2016, gyda gostyngiad yn nifer yr asesiadau ffurfiol, gan fod y bobl yn cael eu cefnogi'n well bellach drwy'r llwybr ataliol yn hytrach nag asesu gwasanaeth statudol drwy'r gwasanaethau cymdeithasol. Mae gwybodaeth ar gael i'r gofalmwyr a pharatoir cylchlythyrau yn rheolaidd, a chynhaliwyd digwyddiadau ar gyfer y gofalmwyr drwy gydol y flwyddyn. Fodd bynnag, nid yw'n glir pa gymorth a gwybodaeth a roddwyd i ofalmwyr y bobl sydd ag anabledd dysgu. Canfuom fod diffyg cymorth dynodedig ar gyfer y grŵp hwn o ofalmwyr ac nad oes blaenoriaeth wedi ei rhoi i ddatblygu cronfa ddata i'r bobl yn y grŵp hwn, fel bod gwybodaeth yn gallu cael ei thargedu iddynt. Roedd diffyg manylion yn y cynlluniau Asesu, Gofal a Chymorth am sut y mae'r gofalmwyr wedi cymryd rhan, ac a gynigiwyd neu a ddarparwyd asesiad ar eu cyfer. Rydym yn derbyn y gallai hyn fod oherwydd dyluniad y ffurflen; fodd bynnag, mae angen i'r cofnodion ddangos bod asesiad gofalwr wedi ei gynnig a'i gwblhau. Mae'r dystiolaeth a geir o'r cwynion a sylwadau uniongyrchol oddi wrth y gofalmwyr yn dangos bod cyfathrebu'n parhau i fod yn broblem. Rhoddwyd enghreifftiau o weithwyr proffesiynol ddim yn ateb galwadau, ddim yn darparu gwybodaeth mewn modd amserol, achyfathrebu mewniaith nad oedd y bobl yn ei deall.
- 4.5. Archwiliodd yr arolygwyr bymtheg ffeil achos, gan ganfod system lawer gwell, at ei gilydd, o ran y trefniadau ar gyfer asesu, gofal a chymorth. Roedd y ffeiliau'n dangos bod camau cadarnhaol wedi eu cymryd i sicrhau bod yr ymarferwyr yn gweithio o fewn fframwaith rhagnodedig a bod systemau effeithiol wedi eu datblygu i gefnogi'r gwaith hanfodol hwn. Canfuom rai enghreifftiau da o bobl yn cael ymgynghoriad ac yn cymryd rhan yn eu cynlluniau asesu a gofal a chymorth, a bod y pethau sydd o bwys i'r bobl wedi eu nodi fel canlyniadau ynddynt. Roedd y rhan fwyaf o'r ffeiliau a archwiliwyd yn dangos archwiliad clir o benderfyniadau'r panel a'r trefniadau cyllido ynglŷn â phecynnau gofal y bobl. Fodd bynnag, ni welwyd unrhyw dystiolaeth o wneud penderfyniadau a goruchwylio rheolwyr yn yr holl ffeiliau a adolygwyd. Er bod yn rhain yn gamau cadarnhaol ar y cyfan a'u bod yn nodi gwell arferion mewn gwaith cymdeithasol, ni welwyd unrhyw dystiolaeth yn y

rhan fwyaf o'r ffeiliau i gefnogi cymorth parhaus effeithiol gyda'r bobl drwy gydol y broses gwybodaeth, cyngor, cymorth, ac nid oedd cofnod ar gael o gwbl o ymgysylltu â'r bobl drwy gydol, ac yn bwysig, yn ystod yr adolygiad o'u cynllun cymorth. Y camau nesaf i gefnogi'r gwaith hwn ar gyfer yr Awdurdod fydd sicrhau bod y cofnodion achos yn adlewyrchu iaith Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, ymgysylltu â'r bobl, a dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

- 4.6. Mae'n rhaid i'r arweinwyr sicrhau y canolbwyntir ar wella systemau rheoli cofnodion a bod y staff yn cael eu cynorthwyo i wneud y gorchwyl hwn yn effeithiol a dangos bod y cofnodion a gedwir yn adlewyrchu taith gofal a chymorth y bobl. Fel blaenoriaeth, cynghorir yr Awdurdod i ddiweddarau'r polisi rheoli cofnodion er mwyn sicrhau ei fod yn rhoi gwybodaeth i'r staff am eu cyfrifoldebau a bod y cofnodion hynny'n bodloni fframwaith deddfwriaethol Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Canfuom fod rhwystr yn parhau i fodoli ar gyfer dangos gwaith amlasiantaethol, oherwydd bod y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn parhau i fod â gwahanol systemau TG. Nid oedd y cofnodion yr edrychwyd arnynt yn adlewyrchu'r ffaith fod yr asesiadau'n rhai amlasiantaethol, ac roedd amryfal gynlluniau i'r bobl yn hytrach nag un cynllun a oedd yn adlewyrchu anghenion holistaidd y bobl. Mae angen i'r Bwrdd Partneriaeth Integredig Rhanbarthol ar gyfer pobl ag anableddau dysgu symud ymlaen â'r gwaith o rannu TG fel blaenoriaeth, yn rhan o'r Strategaeth Anableddau Dysgu.
- 4.7. Roedd sicrhau bod y bobl yn cael adolygiad o'u cynllun gofal a chymorth yn flaenoriaeth o ran y cynllun gweithredu anableddau dysgu yn dilyn yr arolygiad a gynhaliwyd ym mis Rhagfyr 2015. Prynodd yr Awdurdod wasanaethau asiantaeth allanol o'r enw 'Skylakes' er mwyn cynorthwyo i gwblhau'r gorchwyl hwn. Er bod y nod o gwblhau adolygiadau wedi ei gyflawni, gwelsom anghysondeb yn ansawdd y gwaith. Nid oedd y cofnodion yn dangos y broses adolygu mewn modd effeithiol ac nid oeddem yn gallu llwyr egluro beth oedd yn ffurfio'r adolygiad, ac yn bwysig, y canlyniad i'r bobl. Er bod defnyddio 'Skylakes' o gymorth i'r Awdurdod i ymdrin â'r ôl-groniad, nid oedd yr adolygiadau bob amser mor effeithiol o ran cefnogi'r bobl ag y gallasent fod. Roedd hyn oherwydd nad oeddent wedi eu seilio ar wybodaeth dda o adnoddau lleol. Bydd angen i'r Awdurdod ystyried sut y maent yn sicrhau bod yr adolygiadau a gwblheir yn arwain at ganlyniadau ystyrlon i'r bobl.
- 4.8. Nodir bod gwelliannau wedi eu gwneud o ran diogelu oedolion a bod yr Awdurdod wedi gwneud buddsoddiad yr oedd angen mawr amdano, gyda'r datblygiad o uned ddiogelu integredig ar gyfer plant ac oedolion. Llywodraethir y gwasanaeth diogelu gan bolisiau sy'n cydymffurfio â Fframwaith Deddfwriaethol Rhan 7 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, a cheir llwybr atgyfeirio newydd a diwygiedig. Mae meini prawf trothwy wedi eu datblygu, gyda mapiau cynnydd clir sy'n dangos sut y rheolir achosion diogelu oedolion.

- 4.9. Canfuom fod y tîm yn elwa ar arweinyddiaeth a chyfeirio cryf, a bod aelodau'r tîm wedi ymrwymo i wneud yn siŵr eu bod yn gweithio mewn partneriaeth i wella arferion diogelu, a bod pobl yn cael eu diogelu'n briodol drwy roi systemau diogelu effeithiol ar waith. Mae data a gasglwyd gan yr uned yn nodi bod tuedd gynyddol mewn atgyfeiriadau yn ystod y flwyddyn a bod yn rhain yn cael eu rheoli'n effeithiol, gyda 77.40% o ymholiadau diogelu oedolion yn cael eu cynnal o fewn saith niwrnod. Mae trefniadau gwell ar gael ar gyfer cynadleddau achosion.
- 4.10. Ar y cyfan, roedd yr achosion diogelu a archwiliwyd yn dangos bod risgiau'n cael eu rheoli'n briodol, gydag ymateb amserol ar gyfer oedolion mewn perygl. Yn gyffredinol, roedd yr asesiadau'n nodi elfennau o risg, a gwelwyd defnydd cadarnhaol iawn o'r model 'Arwyddion Diogelwch' mewn cynlluniau. Fodd bynnag, gellid gwella systemau drwy gael cynllun diogelu amlasiantaethol mwy cydlynol i'r bobl, yn enwedig ar gyfer yr achosion risgiau uwch. Er mai prin oedd y dystiolaeth a ganfuwyd yn y ffeiliau i gadarnhau sut yr oedd yr oedolyn mewn perygl yn cymryd rhan yn y broses ddiogelu, roedd y cyflwyniad a'r cyfweliad diogelu â'r unigolyn dan sylw yn y broses diogelu oedolion yn dangos pa mor bell yr oedd y gweithwyr yn mynd i ymgysylltu â'r bobl a sicrhau eu bod yn cael dweud eu dweud. Fodd bynnag, mae angen i'r cofnodion ddarparu dystiolaeth well o ymgysylltiad y bobl yn y broses ddiogelu.
- 4.11. Mae'r Awdurdod yn parhau i brofi her sylweddol o ran rheoli'r ceisiadau i awdurdodi trefniadau diogelu rhag colli rhyddid (DoLS) ac mae'r niferoedd yn parhau i gynyddu. Er mwyn ceisio mynd i'r afael â'r problemau, mae gweinyddwr dros dro DoLS wedi ei benodi, yn ogystal â gweithiwr cymdeithasol adolygu dros dro DoLS, sydd â'r swyddogaeth o adolygu achosion yn y system. Er i ni ganfod bod problemau sylweddol yn parhau i fodoli o ran rheoli'r gwaith, mae trefniadau gwell wedi eu sefydlu, gyda system glir ar gyfer monitro a blaenoriaethu'r gwaith. Ceir cysylltiadau gwell â diogelu oedolion hefyd, er mwyn dangos bod ymagwedd fwy holistaidd yn cael ei chymryd.
- 4.12. Yn hanesyddol, mae Pobl yn Gyntaf Sir Benfro wedi darparu cefnogaeth eirioli i bobl ag anabledd dysgu. Mae contract wedi bod mewn grym rhwng yr awdurdod lleol a DEWIS er 2015, i weithredu fel eiriolwyr a darparu cymorth eirioli i grwpiau eraill o bobl, gan gynnwys gofalwyr. Yn ôl trafodaethau, ceir perthynas waith dda rhwng yr Awdurdod a 'Pobl yn Gyntaf Sir Benfro' a bod perthynas adeiladol ag eraill yn bodoli er lles pobl ag anableddau dysgu. Canfuom fod y gwasanaethau eirioli wedi darparu swyddogaeth allweddol yn y gwaith o gynorthwyo'r Awdurdod i ddatblygu'r Strategaeth Anableddau Dysgu ac wedi hwyluso nifer o ddigwyddiadau rhanddeiliaid. Mae'r gwasanaethau eirioli yn cefnogi gwerthoedd ac egwyddorion y Strategaeth ac wedi ymrwymo i waith y Bwrdd Partneriaeth. Dywedodd Pobl yn Gyntaf Sir Benfro eu bod yn awyddus i weld y camau nesaf gan yr Awdurdod a sut y mae'r Strategaeth yn datblygu i fod yn gyflenwr gwasanaeth gydag ymrwymiad gan yr Awdurdod o gyllid dynodedig. Er mwyn sicrhau bod

gwasanaethau'n gwneud gwahaniaeth i ansawdd bywyd pobl ag anableddau dysgu yn Sir Benfro.

Cwestiwn Allweddol 3

I ba raddau y mae'r trefniadau ar gyfer arweinyddiaeth a llywodraethu yn yr awdurdod wedi cyflenwi gweledigaeth glir ar gyfer gofal a chymorth i bobl ag anableddau dysgu, wedi anelu at wella canlyniadau, ac sydd â chefnogaeth ac ymgysylltiad partneriaid, gan gynnwys pobl ag anableddau dysgu a gofalwyr?

Roedd yr arolygiad yn canolbwyntio ar y meysydd canlynol dan Gwestiwn Allweddol 3.

- Mae trefniadau'r arweinyddiaeth, rheolaeth a llywodraethu yn cefnogi'r cyflenwad o wasanaeth effeithiol ar gyfer pobl ag anabledd dysgu.

- 5.1. Mae newidiadau sylweddol wedi digwydd i'r staff ers arolygiad mis Rhagfyr 2015. Ymddeolodd cyfarwyddwr y gwasanaethau cymdeithasol yn ystod yr haf a phenodwyd pennaeth y gwasanaethau i oedolion fel y cyfarwyddwr ym mis Rhagfyr 2016. Ar adeg ein harolygiad ym mis Rhagfyr 2015, canfuom fod yr Awdurdod wedi profi nifer o newidiadau yn ei drefniadau rheoli, gyda swyddi allweddol yn cael eu dal gan reolwyr dros dro. Mae'r ansefydlogrwydd parhaus hwn yn y trefniadau arweinyddiaeth a rheolaeth wedi effeithio'n sylweddol ar gyflenwi'r gwasanaeth yn yr Awdurdod, ac mae'n rhaid cymryd camau erbyn hyn i gyfnerthu a sicrhau bod yr arweinwyr yn ysgogi gweledigaeth y gwasanaethau ar gyfer pobl ag anableddau dysgu.
- 5.2. Mae gwelliannau wedi eu gwneud i arweinyddiaeth a llywodraethu'r gwasanaethau cymdeithasol. Mae'r sylfeini wedi eu gosod ar gyfer cyflenwi gwasanaethau sydd o bwys i bobl, gyda phwyslais ar ganlyniadau a chynaliadwyedd. Bu pwyslais cryf ar weithio mewn partneriaeth ar lefel leol a rhanbarthol, ac mae'r awdurdod lleol yn awyddus i archwilio sut y gallai ddefnyddio dull cyd-gynhyrchu yn y broses o ddatblygu gwasanaethau er mwyn cael cyfraniad cryf gan ddefnyddwyr yn eu cynllun o wasanaethau yn y dyfodol. Ar hyn o bryd, mae'r Awdurdod yn ymgysylltu â'r 'National Economics Foundation' er mwyn symud ymlaen â modelau cyd-gynhyrchol o gyflenwi gwasanaeth.
- 5.3. Mae cyfarwyddwr y gwasanaethau cymdeithasol a'r pennaeth comisiynu wedi bod yn ysgogi'r rhaglen newidiadau, gan roi pwyslais clir ar newid diwylliannol a gwell arferion. Mae'r cyfarwyddwr, yn ei swyddogaeth flaenorol fel pennaeth y gwasanaeth, wedi bod yn ganolog yn y newid diwylliannol hwn, gan ganolbwyntio ar weithio ac ymgysylltu â'r staff mewn modd agored a thryloyw. Mae'r cyfarwyddwr yn glir ynglŷn â gweledigaeth y gwasanaethau i bobl ag anableddau dysgu ac mae wedi ymrwymo i symud ymlaen â gwasanaethau sy'n darparu, ac mae'n

dweud mai'r weledigaeth ar gyfer y gwasanaethau yw: "Mae modelau traddodiadol o ofal yn creu dibyniaeth; dylai ymyrraeth hybu annibyniaeth a chanolbwyntio ar adferiad a galluogi".

- 5.4. Ar y cyfan, canfuom rywfaint o newid diwylliannol cadarnhaol gyda phwyslais adnewyddol ar newidiadau a gwelliannau parhaus. Roedd y staff, yn ddieithriad, yn siarad yn gadarnhaol am y newidiadau hyn, ac roedd teimlad gwirioneddol y gwrandewid arnynt. Er bod y rhain i gyd yn gamau cadarnhaol iawn, mae angen i'r arweinwyr gynnal y momentwm a sicrhau bod aelodau'r staff yn parhau i deimlo eu bod yn cael eu cynnwys yn y cynlluniau ac yr ymgynghorir â hwy yn eu cylch. Bydd datblygu strategaeth gyfathrebu a gysylltir â gweithredu'r Strategaeth Anableddau Dysgu yn allweddol ar gyfer hyn. Mae'n glir bod effaith tanfuddsoddi hanesyddol, a diffyg arweinyddiaeth a chyfeiriad wedi effeithio'n niweidiol ar y Tîm Anableddau Dysgu Cymunedol ar bob lefel, yn y gwasanaeth iechyd a'r gwasanaethau cymdeithasol, ac mae angen i'r arweinwyr fodelu arweinyddiaeth gref, ymatebol a chefnogol erbyn hyn.
- 5.6. Mae gwell trefniadau llywodraethu wedi eu sefydlu erbyn hyn ac mae'r aelod o'r cabinet dros wasanaethau cymdeithasol wedi ei benodi'n Eiriolwr dros anableddau dysgu. Roedd trafodaethau â'r aelodau o'r cabinet yn awgrymu (eu bod yn ymwybodol iawn) (fod ganddynt ddealltwriaeth dda) o broblemau a'u bod yn darparu'r her sydd ei hangen ar gyfer symud y gwasanaethau ymlaen. Mae'r cyfarwyddwr yn cyfarfod yn systematig â phenaethiaid gwasanaethau unwaith yr wythnos. Cynhelir cyfarfod tîm rheoli gwasanaethau cymdeithasol ehangach unwaith y mis, ac mae cyfarfodydd rheolaidd wedi eu cynnal ag aelodau o'r staff. Cyflwynir cwynion yn uniongyrchol i'r cyfarwyddwr ac fe'u trafodir yn uniongyrchol ag ef unwaith y mis, ac mae digwyddiadau dysgu wedi eu cyflwyno er mwyn gwella arferion ar sail amlasiantaethol. Er bod rhai mesurau sicrhau ansawdd wedi eu cyflwyno, nid yw'n glir i ba raddau y mae'r rhain wedi eu gweithredu. Mae'n hanfodol bwysig bod y cyfarwyddwr yn sefydlu mesurau effeithiol ar gyfer sicrhau ansawdd a monitro er mwyn sicrhau cysondeb ac ansawdd cymorth i'r bobl. Dylai hyn wneud yn siŵr bod yr uwch-swyddogion yn cyflawni eu cyfrifoldebau ac yn cefnogi'r staff yn effeithiol, er mwyn galluogi iddynt weithredu modelau newydd o weithio ac ysgogi'r gwaith a amlinellir yn y Strategaeth Anableddau Dysgu.
- 5.7. Mae'r awdurdod lleol wedi cofleidio'r cysyniad o weithio'n rhanbarthol, ac mae'r arweinwyr wedi ymrwymo i weithio'n gydweithredol yng Nghydweithrediaeth Ranbarthol Gorllewin Cymru. Mae asesiad o anghenion y boblogaeth ranbarthol wedi ei gwblhau, ac mae gwaith yn cael ei wneud ar y cyd ar hyn o bryd gan Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin a Cheredigion i gynhyrchu datganiad o sefyllfa'r farchnad. Mae cydweithio hefyd wedi dechrau ymdrin â systemau TG. Mae fframwaith comisiynu ar y cyd wedi ei sefydlu â Sir Gaerfyrddin ac mae tendr ar y cyd ar y gweill ar gyfer gwasanaethau byw â chymorth. Mae gwaith effeithiol

parhaus y gydweithrediaeth ranbarthol hon yn hollbwysig ar gyfer ysgogi'r Strategaeth Anableddau Dysgu, ac yn benodol, y gwaith ymgysylltu â Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.

- 5.8. Roedd trafodaethau ag aelodau o dîm y gwasanaethau iechyd a'r gwasanaethau cymdeithasol yn cadarnhau eu bod yn fodlon gwneud newidiadau a'u bod wedi eu sbarduno i symud y modelau gweithio newydd ymlaen. Mae hyn yn neges anogol ac mae'n cadarnhau eu hymrwymiad i bobl ag anableddau dysgu, eu gofalwyr ac awdurdod lleol Sir Benfro, o ystyried yr anawsterau a brofwyd gan y timau yn y gorffennol. Roedd y gweithwyr yn y gwasanaethau cymdeithasol yn siarad yn gadarnhaol am y fframwaith rheoli gofal newydd ac yn dweud bod yr hyfforddiant a'r gefnogaeth a ddarparwyd ynglŷn â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a'r model ymyrraeth, Arwyddion Diogelwch, ar gyfer diogelu oedolion, yn gadarnhaol. Er y bu sawl menter gadarnhaol a gwell arferion, mae diffygion yn y tîm oherwydd achosion o salwch hirdymor a swyddi gwag staff wedi effeithio'n sylweddol ar y staff a'u gallu i reoli'r llif gwaith yn ystod y flwyddyn. Roedd yr aelodau o'r tîm yn siarad yn gadarnhaol am y gefnogaeth yr oeddent wedi ei chael gan eu rheolwr tîm, ond yr oedd yn amlwg, fodd bynnag, fod hon wedi bod yn flwyddyn gadarnhaol ond anodd i aelodau'r staff. Mae'n amlwg bod y problemau staffio wedi effeithio ar gyfradd gwelliant y gwasanaeth proffesiynol a ddarparwyd gan y Tîm Anableddau Dysgu Cymunedol. Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod hyn yn ymwneud fwy â'r penderfyniadau rheoli yn hytrach na'r parodrwydd o'r tu mewn i'r tîm. Mae'r diffyg protocolau cytunedig ar gyfer modelau gweithio newydd rhwng y gwasanaethau cymdeithasol a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda wedi creu lefel o ansicrwydd y gellid bod wedi ei hosgoi pe byddai'r arweinwyr wedi disgrifio'r model strwythurol newydd yn glir a bod hyn wedi ei gefnogi gan bolisiâu a chanllawiau. Mae hwn yn ddiffyg y mae'n rhaid rhoi sylw iddo. Roedd yr arweinwyr yn y gwasanaethau cymdeithasol a'r gwasanaethau iechyd yn siarad am yr ymrwymiad i newid ac i weithio'n gydweithredol i ddatblygu modelau gweithio newydd. Roedd y staff yn y sefydliadau hyn yn siarad am yr ansicrwydd ynglŷn â sut y bydd y weledigaeth yn cael ei gwireddu i gyflenwi gwasanaeth. Mae'n bwysig bod yr arweinyddion yn y ddwy asiantaeth yn rhoi blaenoriaeth i sut y datblygir ac y cyflenwir y gwasanaeth, er mwyn sicrhau y rhoddir sylw i'r ansicrwydd a brofir ar hyn o bryd.
- 5.9. Mae'r awdurdod lleol wedi cymryd camau cadarnhaol yn ystod y pymtheng mis diwethaf i ddatblygu gweledigaeth o wasanaethau sy'n gwella ansawdd bywyd pobl ag anableddau dysgu. Canfu'r arolygiad hwn fod sawl newid cadarnhaol wedi ei wneud. Yn fwyaf arwyddocaol, efallai, ceir tystiolaeth o newid diwylliannol, gyda phobl yn cael ymgynghoriad ac yn cael eu gwahodd i gael eu cynnwys mewn trafodaeth agored ynglŷn â sut y datblygir y gwasanaethau. Y cam allweddol nesaf yw sicrhau bod y weledigaeth a'r uchelgais a amlinellir yn y Strategaeth Anableddau Dysgu yn arwain at weithredu. Y prawf yw pa un a fydd y bobl yn dechrau gweld gwahaniaeth yn y gwasanaethau y

maent yn eu derbyn a'u bod yn cael eu cefnogi i gael gwell canlyniadau
a bod eu dewisiadau bywyd yn cael eu cyfoethogi.